

Uwch-arolygydd Milfeddygol - Maes yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
Gwnewch gais cyn dydd Iau 23 Mai 2022



Manylion

Rhif cyfeirnod

202056

Cyflog

£35,895 - £40,613

£35,895 - £43,847

Gradd

Uwch-swyddog Gweithredol

Math o gontract

Parhaol

Maes busnes

APHA

Math o rôl

Cyflawni Gweithredol

Gwasanaethau Milfeddygol

Patrwm gweithio

Gweithio hyblyg, Llawn amser, Rhannu swydd, Rhan amser

Nifer y swyddi

Dolenni i adrannau

[Lleoliad](#)

[Y swydd](#)

[Buddiannau](#)

[Pethau y mae angen i chi eu gwybod](#)

[Gwneud cais a rhagor o wybodaeth](#)

Lleoliad

Cenedlaethol

Y swydd

Crynodeb

Ydych chi am fod yn rhan o dîm sy'n amddiffyn Prydain Fawr rhag clefydau hysbysadwy egsotig?

Ydych chi am gael rôl yn diogelu safonau iechyd a lles anifeiliaid?

Ydych chi am ddefnyddio eich sgiliau cyfathrebu a datrys problemau mewn rôl sy'n darparu amrywiaeth a hyblygrwydd?

Os felly, beth am ymuno â ni a gwneud gwahaniaeth?

XX Deiliad lle ar gyfer fideo XX

Sesiwn galw heibio

Er bod yr hysbyseb a'r pecyn ategol i ymgeiswyr yn darparu'r manylion hanfodol, bydd APHA yn cynnal sesiwn galw heibio o bell tra bydd yr hysbyseb yn fyw. Bydd y sesiwn yn gyfle i ofyn cwestiynau sy'n ymwneud â'r swydd a'r broses gwneud cais.

Caiff y sesiwn galw heibio ar gyfer yr ymgyrch hon ei chynnal ar: Mai 4ydd a Mai 11eg am 11yb.

[Dydd Mercher 4 Mai 2022 11:00yb - 12:00yb](#)

[Dydd Mercher 11 Mai 2022 11:00yb - 12:00yb](#)

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ychwanegol, neu i'r rhai na allant fod yn bresennol yn y sesiwn galw heibio, e-bostiwch

RECRUITMENT.SDD@apha.gov.uk

Cliciwch yma i fynd i wefan Gyrfaoedd Milfeddygol APHA i gael rhagor o wybodaeth.

Disgrifiad Swydd

Mae rôl Uwch-arolygydd Milfeddygol yn cynnwys amrywiaeth eang o waith, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Ymateb i ddigwyddiadau a brigiadau o achosion o glefydau anifeiliaid hysbysadwy
- Ymchwilio i glefydau anifeiliaid mewn da byw fferm drwy;
 - ymgymryd ag ymchwiliadau ar ffermydd ac ymchwiliadau maes
 - archwilio anifeiliaid fferm i gefnogi diagnosis gwahaniaethol o glefydau
 - cynnal archwiliadau post-mortem pan fo'n briodol
 - casglu a chyflwyno samplau priodol ar gyfer profion labordy
 - casglu a dehongli data perthnasol i gefnogi penderfyniadau
 - rhoi gwybod am ganfyddiadau ac argymhellion
- Ymgymryd ag ymchwiliadau lles adweithiol a gwaith goruchwyllo. Gan gynnwys lles anifeiliaid fferm wrth iddynt gael eu cludo, pan gânt eu lladd a phan fyddant yn cael eu cadw ar ddaliadau amaethyddol
- Arolygu, Cymeradwyo ac Archwilio safleoedd mewn amrywiaeth o leoliadau, o sŵau i ffatrioedd prosesu bwyd anifeiliaid anwes, a llawer o leoliadau eraill
- Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau statudol mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid
- Meithrin cydberthnasau cydweithredol ag amrywiaeth o bartneriaid gwerthfawr, gan gynnwys awdurdodau lleol, cynrychiolwyr y diwydiant a milfeddygon nad ydynt yn gweithio i APHA
- Ymgymryd â swm rhesymol o waith ar rota dyletswyddau a rota y tu allan i oriau

Mae swyddi gwag ar gael yn Aston Down, Ayr, Bakewell, Bury St-Edmunds, Caernarfon, Caerfyrddin, Caerwysg, Horley, Cernyw, Caerwrangon, Inverurie, Caerlŷr / Lincoln, Llandrindod, Amwythig, Stafford, Starcross, Dyfnaint, Truro, Thirsk / Efrog ar hyn o bryd.

Rydym yn eich annog i wneud cais gan y bydd y swyddi gwag yn cael eu llenwi gan ddefnyddio'r rhestr wrth gefn o'r ymgyrch hon. Caiff pob swydd ei chynnig yn nhrefn teilyngdod yn seiliedig ar y lleoliad ac anghenion busnes.

Cewch eich cysylltu mewn enw ag ardal gyflawni, a fydd â swyddfa APHA ddynodedig. Fel rhan o'r rôl, bydd disgwyl i chi deithio'n rheolaidd a chyflawni'r dyletswyddau a amlinellir uchod. Dan rai amgylchiadau (e.e. brigiadau cenedlaethol o glefydau) bydd ceisiadau i weithio ar ddyletswydd neilltuedig yn rhywle arall, yn dibynnu ar anghenion busnes. Mae'n bosibl y caiff y ceisiadau hyn eu gwneud ar fyr rybudd. Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio o leoliadau eraill yn yr ardal Gyflawni o bryd i'w gilydd.

Ar hyn o bryd, mae APHA wedi mabwysiadu dull cyfunol o weithio, gan ganiatáu i weithwyr weithio gartref rywffaint a mynd i'r swyddfa.

Cyfrifoldebau

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd;

- yn gallu ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid mewn modd hyderus a phroffesiynol
- â rhywfaint o brofiad o weithio mewn timau â sgiliau a disgyblaethau gwahanol
- yn gallu ymdopi â chyfrifoldeb yn hyderus wrth wynebu heriau ac addasu i sefyllfaoedd newydd yn hyblyg
- yn gallu llunio adroddiadau i gyfleu gwybodaeth filfeddygol
- yn gallu cadw cofnodion ardderchog ac yn deall pwysigrwydd archwilio a phrosesau sy'n cynnal allbynnau o safon
- yn meddu ar rywffaint o brofiad ymarferol o waith milfeddygol gan gynnwys, yn ddelfrydol, trin anifeiliaid mawr a medrusrwydd mewn technegau rheolaidd a sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddatblygu'n Filfeddyg Gwladol

Cymorth a Hyfforddiant

Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn cael rhaglen hyfforddiant a chymorth helaeth fel rhan o'i gyfnod sefydlu i weithio gydag APHA.

Mae APHA yn gwerthfawrogi'r lefel amrywiol o brofiadau a sgiliau y bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus pan fyddant yn ymuno â'r asiantaeth. Caiff deunyddiau hyfforddi eu cynllunio i sicrhau bod holl staff newydd APHA yn meithrin hyder a chymwyseddau addas i gyflawni'r gwaith.

Bydd staff milfeddygol newydd yn rhan o dimau rhanbarthol, ledled y

wlad a Phrydain Fawr a fydd yn cael cymorth eang ar bob agwedd ar waith APHA.

Trwyddedau

Trwydded yrru ddilys yn y DU, a mynediad at gerbyd sydd ag yswiriant defnydd busnes priodol.

Cymwysterau

Gradd Baglor Milfeddygaeth o leiaf, neu'r hyn sy'n cyfateb iddi

Aelodaeth

Aelod neu'n Gymrawd o Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

Ieithoedd

Rhaid i chi feddu ar sgiliau Saesneg ysgrifenedig ac ar lafar amlwg i'ch galluogi i gyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid a chydweithwyr am bynciau milfeddygol, a bodloni un o'r gofynion canlynol:

- wedi ymgymryd â hyfforddiant milfeddygol israddedig yn Saesneg; neu
- yn meddu ar sgiliau Saesneg ysgrifenedig ac ar lafar digonol i gyflawni'r rôl yn effeithiol fel gweithiwr sector cyhoeddus mewn rôl sy'n delio â chwsmeriaid neu
- wedi cyflawni'r sgoriau canlynol yn y System Profi Iaith Saesneg academiaidd ryngwladol (IELTS) neu sgôr gyfatebol yn ystod un cyfnod sefyll prawf o fewn 24 mis i ddyddiad y cais – Cyffredinol 7, Siarad 7, Gwrando 7, Darllen 7, Ysgrifennu 7.

Ymddygiadau

Byddwn yn eich asesu yn erbyn yr ymddygiadau hyn yn ystod y broses ddethol:

- Cyfathrebu a Dylanwadu

Sgiliau Technegol

Byddwn yn eich asesu yn erbyn y sgiliau technegol hyn yn ystod y broses ddethol:

- Dealltwriaeth o glefydau egrotig hysbysadwy yn y DU.
- Materion yn ymwneud â lles mewn amaethyddiaeth yn y DU.
- Dealltwriaeth o Reoli TB yn Lloegr.
- Gwybodaeth Filfeddygol.

Buddiannau

Pensiwn a Buddiannau Ariannol

Manteision

Pensiwn a Buddiannau Ariannol

Mae eich pensiwn yn rhan werthfawr o'ch pecyn gwobrwy cyfan ac mae opsiynau amrywiol yn cynnwys cynlluniau pensiwn Alpha a Partnership lle y gall Defra wneud cyfraniad at gost eich pensiwn. Aswiriant Bywyd: os byddwch yn mynd yn rhy sâl neu'n marw cyn ymddeol, darperir buddiannau gwerthfawr i chi a'ch teulu.

Amser i ffwrdd

25 diwrnod o wyliau blynyddol (yn codi i 30 diwrnod dros bum mlynedd) ar gyfer staff newydd yn y Gwasanaeth Sifil; bydd Gweision Sifil presennol yn cadw eu trefniadau cyfredol.

Absenoldeb Arbennig

Cynigir absenoldeb â thâl ychwanegol ar gyfer sefyllfaoedd eraill, gan gynnwys absenoldeb yn ymwneud â theulu, i gyflogeion sy'n gwirfoddoli ac yn cymryd rhan mewn dyletswyddau cyhoeddus, gweithgareddau undebau llafur, lluoedd arbennig/hyfforddedig ac ar gyfer cynrychiolwyr iechyd a diogelwch.

Gwobrau

Mae gennym Gynllun Cydnabod Staff ac mae ein gwobrau yn ystod y flwyddyn yn gwobrwy gwaith rhagorol.

Ar raddfa Uwch-swyddog Gweithredol ar gyfer milfeddygon, ar hyn o bryd mae gennym system sy'n talu gwobr ariannol ar ddwy lefel, yn dibynnu ar lefel eich profiad a'ch cymhwysedd yn y rôl. Dim ond pan fydd staff wedi llwyddo yn eu cyfnod prawf y mae'r cynllun hwn ar gael, ac nid yw'n rhan o'r pecyn gwobrwy cytundebol. Ar hyn o bryd, mae'r lefel uwch yn gyfwerth â dros 7.5% o'r cyflog cychwynnol.

Dysgu a Datblygu

Cynigir pum diwrnod o ddysgu a datblygu bob blwyddyn i gefnogi datblygiad proffesiynol drwy Civil Service Learning. Sesiwn sefydlu gorfforaethol a thri diwrnod o absenoldeb arbennig ar gyfer gwirfoddoli.

Rheoli Perfformiad

Cynlluniau perfformiad unigol, dysgu a datblygu sy'n cyfateb i'ch

amcanion gyrfa y cytunwyd arnynt a'ch cynlluniau datblygu.

Absenoldeb Arholiad

Absenoldeb â thâl er mwyn sefyll arholiadau ac adolygu ar gyfer astudiaethau a gymeradwywyd.

Llesiant Staff

Mynediad at y Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, sydd ar gael 24/7, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion personol a chyflogaeth megis lles personol, datblygiad gyrfa, materion cyfreithiol megis anghydfodau landlord / tenant. Mynediad at y Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Chyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil.

Headspace

Mynediad am ddim at Headspace, sef ap ymwybyddiaeth ofalgar, myfyrio a chysgu.

Cydbwysedd Gwaith / Bywyd:

Buddiannau Teithio a Thrafnidiaeth

Amrywiaeth o fuddiannau teithio a thrafnidiaeth. Mynediad at gynllun aberthu cyflog beicio i'r gwaith, sy'n eich galluogi i brynu beic gwerth hyd at £6k.

Buddiannau Siopa a Hamdden

Amrywiaeth o ostyngiadau mewn siopau ar-lein a phrofiadau hamdden drwy Mylifestyle.

Benthyciadau Di-log

Ar gyfer tocynnau tymor a/neu feiciau a chyfarpar diogelwch yn ogystal â chynllun blaendal tenantiaeth.

Buddiannau Eraill:

Tâl Salwch

Mae gennym amrywiaeth o fesurau ar waith i helpu gyda'ch iechyd corfforol ac emosiynol. Rydym yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â materion iechyd. Fodd bynnag, os na fyddwch yn ddigon da i weithio, rydym yn cynnig tâl salwch galwedigaethol, sy'n cynyddu yn ôl hyd gwasanaeth.

Absenoldeb Rhiant Uwch

Rydym yn cynnig absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir hael.

Gweithio mewn ffordd sy'n addas i chi

Gyda chynifer o opsiynau hyblyg, gall y rhan fwyaf o bobl ddod o hyd i amserlen waith sy'n addas i'w hamgylchiadau. Mae gweithio mewn tîm o 350 o filfeddygon a 500 o Swyddogion Iechyd Anifeiliaid a gwyddonwyr yn golygu bod digon o hyblygrwydd ar gael.

Pethau y mae angen i chi eu gwybod

Diogelwch

Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus basio gwiriad diogelwch gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd.

Rhaid i bobl sy'n gweithio gydag asedau'r llywodraeth gwblhau gwiriadau [diogelwch sylfaenol safonol i bersonél](#).

Meddygol

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gael prawf meddygol.

Manylion y broses ddethol

Mae'r swydd wag hon yn defnyddio [Proffiliau Llwyddiant](#), a bydd yn asesu eich Ymddygiadau, Cryfderau, Profiad a Sgiliau Technegol.

Y Broses Gwneud Cais

Fel rhan o'r broses gwneud cais, gofynnir i chi gwblhau CV, gan gynnwys hanes swyddi a chymwysterau, ynghyd â datganiad o addasrwydd.

Ar gyfer eich CV, amlinellwch eich rôl bresennol a'ch rolau blaenorol perthnasol a pha mor hir y buoch ym mhob rôl. Rhowch ddisgrifiad cryno o'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau.

Rhowch ddatganiad o addasrwydd sy'n nodi sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn eich gwneud yn addas ar gyfer y rôl. Ystyriwch yr eitemau yn y disgrifiad swydd a'r cyfrifoldebau a rhowch dystiolaeth sy'n dangos sut rydych yn bodloni'r rhain. Ni ddylai eich datganiad o addasrwydd fod yn fwy na 500 o eiriau.

Ceir rhagor o fanylion am hyn ar y ffurflen gais.

Sifft

Os bydd nifer mawr o geisiadau yn dod i law, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal sifft gychwynnol gan ddefnyddio'r Datganiad o Addasrwydd yn unig. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y sifft gychwynnol yn symud ymlaen i sifft lawn, neu'n syth i gael asesiad/cyfweliad.

Caiff y sifft ei chwblhau ar ôl dyddiad cau'r swydd wag a disgwylir i'r canlyniadau gael eu rhyddhau yn fuan wedi hynny

Cyfweliad

Os byddwch yn llwyddiannus ar y cam gwneud cais, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad lle y byddwch yn cael eich asesu ar sail ymddygiad, cyfathrebu a dylanwadu. Bydd hyn yn cael ei asesu drwy gyflwyniad. Byddwch yn cael rhagor o fanylion am hyn gyda'r gwahoddiad i gyfweliad.

Byddwch hefyd yn cael eich asesu ar sail elfennau technegol y rôl;

- Dealltwriaeth o glefydau egsotig hysbysadwy yn y DU
- Materion yn ymwneud â lles mewn amaethyddiaeth yn y DU
- Dealltwriaeth o Reoli TB yn y DU
- Gwybodaeth filfeddygol

Byddwn hefyd yn gofyn cwestiynau i chi am eich cryfderau a'ch profiad.

Disgwylir i gyfweliadau ddechrau ar wythnos yn dechrau 13 Mehefin 2022 a bydd pob cyfweliad yn cael ei gynnal ar-lein drwy MS Teams.

Rhestr wrth Gefn

Caiff rhestr wrth gefn ei chadw am gyfnod o 12 mis y gellir ei defnyddio i wneud penodiadau pellach.

Rhestrau Teilyngdod

Lle y nodir mwy nag un lleoliad yn yr hysbyseb, caiff ymgeiswyr eu lleoli yn nhrefn teilyngdod fesul lleoliad. Gofynnir i chi nodi pa leoliad a ffefrir gennych ar eich cais. Gallwch ddewis Cenedlaethol os ydych yn hapus i gael eich lleoli unrhyw le yn y DU.

Cyflog

Disgwylir i staff newydd i'r Gwasanaeth Sifil ddechrau ar isafswm y band cyflog. Bydd y rheolau ynglŷn â rolau mewnol yn gymwys i

Weision Sifil presennol, h.y. bydd trosglwyddiadau ar yr un lefel yn symud ar eu cyflog presennol neu isafswm yr ystod cyflog, bydd trosglwyddiadau ar ôl dyrchafiad yn symud i isafswm ystod y cyflog newydd neu'n cael codiad o 10%. Bydd y naill achos a'r llall yn cael ei benderfynu yn ôl pa un bynnag sydd uchaf.

Lleoliad

Byddwch yn ymwybodol, yn ôl y contract, y bydd y rôl hon/rolau hyn cael eu lleoli mewn gweithle/swyddfa grŵp Defra. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gyflawni ei holl ddyletswyddau o leoliad yn y DU, ac ni fydd yn gallu gwneud hynny o leoliad tramor ar unrhyw adeg.

Datganiad Nawdd Fisa

Sylwer nad yw Defra yn meddu ar noddwr Trwydded Gweithiwr Medrus Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI) ac nid yw'n gallu noddi unrhyw unigolion am Nawdd Gweithiwr Medrus.

Addasiad Rhesymol

Os bydd unigolyn ag anabledau yn wynebu anfantais sylweddol o gymharu ag unigolyn nad yw'n anabl, mae dyletswydd arnom i wneud newidiadau rhesymol i'n prosesau.

Os bydd angen gwneud newid er mwyn i chi allu cwblhau eich cais, dylech wneud y canlynol:

- Cysylltu â Gwasanaeth Recriwtio'r Llywodraeth drwy defrarecruitment.grs@cabinetoffice.gov.uk cyn gynted â phosibl cyn y dyddiad cau er mwyn trafod eich anghenion.
- Cwblhau'r adran "Angen Cymorth" ar dudalen "Gofynion ychwanegol" eich ffurflen gais er mwyn dweud wrthym am y newidiadau neu'r help y gallai fod eu hangen arnoch yn nes ymlaen yn y broses recriwtio. Er enghraifft, efallai y bydd angen i leoliad y cyfweliad fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn neu, os ydych yn fyddar, efallai y bydd angen Gweithiwr Gwasanaethau Iaith Proffesiynol arnoch.

Hygyrchedd

Os cewch unrhyw broblemau o ran gallu defnyddio unrhyw ddogfennau a atodir i'r hysbyseb hon, rhwch wybod gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost yn yr adran 'Pwynt cyswllt i ymgeiswyr'.

Gwiriad Cofnodion Troseddol

Os byddwch yn llwyddiannus ac yn trosglwyddo o adran arall o'r Llywodraeth, mae'n bosibl y cynhelir gwiriad cofnodion troseddol.

Er mwyn prosesu ceisiadau'n ddi-oed, byddwn yn anfon Gwiriad Cofnodion Troseddol i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar eich rhan. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, o dan amgylchiadau eithriadol, y bydd rhai ymgeiswyr am anfon eu ffurflenni wedi'u cwblhau yn uniongyrchol. Os byddwch yn gwneud hyn, rhowch wybod i Wasanaeth Recriwtio'r Llywodraeth am eich bwriad drwy e-bostio Pre-Employment.Checks@cabinetoffice.gov.uk gan nodi rhif cyfeirnod y swydd yn y testun.

Gwiriad ar y Gronfa Ddata Twyll Mewnol

Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cyfweiliad yn destun gwiriad ar y Gronfa Ddata Twyll Mewnol (IFD) fel rhan o'r broses sgrinio cyn cyflogaeth. Bydd y gwiriad hwn yn darparu gwybodaeth am gyflogeion sydd wedi cael eu diswyddo am droseddau twyll neu anonestrwydd. Mae'r gwiriad hwn hefyd yn gymwys i gyflogeion sy'n ymddiswyddo neu sydd fel arall yn gadael cyn iddynt gael eu diswyddo am dwyll neu anonestrwydd pe bai eu cyflogaeth wedi parhau. Bydd manylion unrhyw ymgeisydd a gedwir ar yr IFD yn cael gwrthod cyflogaeth.

Nid yw ymgeisydd yn gymwys i wneud cais am rôl yn y Gwasanaeth Sifil os caiff y cais ei wneud o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar ôl iddo gael ei ddiswyddo am gyflawni twyll mewnol yn erbyn y llywodraeth.

Cliriad Diogelwch Uwch:

Mae'r holl swyddi hyn yn gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar gliriad diogelwch sylfaenol. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr sy'n cael swydd mewn rhai lleoliadau yn destun cliriad uwch oherwydd gofynion diogelwch y lleoliad hwnnw. Caiff cynigion gwaith ar gyfer y swyddi hyn eu gwneud ar sail teilyngdod. Dim ond ar ôl cael cynnig swydd y cynhelir y broses fetio diogelwch.

Talebau Gofal Plant

Os byddwch yn symud i Defra o gyflogwr arall, ni fydd yn bosibl i chi fanteisio ar dalebau gofal plant mwyach. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer un o gynlluniau eraill y llywodraeth, gan gynnwys Gofal Plant Di-dreth. Gallwch gadarnhau eich cymhwysedd [yma](#)

Y Coronafeirws

Rydym yn cadw llygad craff ar sefyllfa'r Coronafeirws a byddwn yn

dilyn cyngor Llywodraeth ganolog wrth iddo gael ei gyhoeddi. Felly, mae risg y gallai'r broses recriwtio i'r swydd hon newid ar fyr rybudd. Dylech barhau i ddilyn y broses gwneud cais fel arfer ac edrych ar eich e-bost yn rheolaidd i gael y newyddion diweddaraf gennym, gan mai dyma sut y byddwn yn cyfathrebu â chi.

Wrth i gyfyngiadau'r llywodraeth barhau i godi, bydd grŵp Defra yn ystyried ffyrdd hyblyg o weithio ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn golygu, yn amodol ar angen busnes, y caiff ymgeiswyr llwyddiannus gynnig yr opsiwn i gyfuno gweithio gartref â gweithio yn eu gweithle grŵp Defra cytundebol, gan deithio i leoliadau gwaith eraill yn achlysurol. Bydd rhagor o wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd hon ar gael i'r ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd am gyfweiliad.

Dim ond os byddwch yn dod i gyfweiliad neu asesiad y rhoddir adborth.

Gofynion cenedligrwydd

Mae'r swydd hon ar agor i'r grwpiau canlynol:

- gwladolion y DU
- gwladolion gwledydd y Gymanwlad sydd â hawl i weithio yn y DU
- gwladolion Gweriniaeth Iwerddon
- gwladolion o'r UE, yr AEE neu'r Swistir sydd â statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog neu sy'n gwneud cais am y naill statws neu'r llall erbyn dyddiad cau y [Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE \(EUSS\)](#)
- gwladolion perthnasol o'r UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil
- gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sydd wedi ennill yr hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil
- aelodau penodol o deuluoedd gwladolion perthnasol o'r UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci

[Rhagor o wybodaeth am ofynion cenedligrwydd](#)

Gweithio i'r Gwasanaeth Sifil

Mae [Cod y Gwasanaeth Sifil](#) yn nodi'r safonau ymddygiad y disgwylir i weision sifil eu cyrraedd.

Rydym yn recriwtio yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth agored a theg, fel yr amlinellir yn [egwyddorion recriwtio](#) Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn croesawu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Felly, rydym yn cynnal Cynllun Hyderus o Ran Anabledd i ymgeiswyr sydd ag anableddau sy'n bodloni'r meini prawf dethol gofynnol.

Mae'r Gwasanaeth Sifil hefyd yn cynnig Cynllun Cyfweld er mwyn Adleoli i weision sifil sydd mewn perygl o golli eu swydd ac sy'n bodloni gofynion sylfaenol y swydd wag a hysbysebir.

Gwneud cais a rhagor o wybodaeth

Ni fydd yr hysbyseb swydd ar gael ar ôl dyddiad cau'r swydd hon. Efallai y byddwch am gadw copi ohoni ar gyfer eich cofnodion chi.

Manylion cyswllt i ymgeiswyr

Unigolyn cyswllt y swydd :

- Enw :APHA Recruitment
- E-bost :Recruitment.sdd@apha.gov.uk

Gwnewch gais nawr

Rhannu'r dudalen hon

- [Argraffu](#)
- [E-bost](#)
- [Facebook](#)
- [Twitter](#)
- [LinkedIn](#)
- [GMail](#)